

Rhyddid iard y fferm

GWEITHGAREDD CANFYDDIAD

NODAU'R GWEITHGAREDD

- Disgrifio materion yn ymwneud â lles anifeiliaid wrth gynhyrchu bwyd
- Nodi tosturi tuag at anifeiliaid sy'n cael eu ffermio ar gyfer bwyd
- Adnabod yr amodau sy'n bodloni anghenion yr anifeiliaid

CWESTIYNAU ALLWEDDOL

- A yw'n bwysig sut mae anifail fferm yn cael ei drin?
- Sut allwn ni wella bywydau anifeiliaid fferm?
- Beth mae'r RSPCA yn ei wneud i sicrhau y bodlonir anghenion anifeiliaid fferm?

ADNODDAU

- Sleidiau PDF rhyngweithiol 'Rhyddid iard y fferm' i dywys disgyblion trwy'r gweithgareddau
- Papur sgrap neu nodiadau gludiog

Mae'r adnodd hwn wedi'i anelu'n bennaf at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Oherwydd natur y pynciau sy'n cael eu trafod yn y rhaglen Compassionate Class, mae'n bwysig ystyried sut allai plant gwahanol ymateb i'r trafodaethau. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chreu amgylchedd addysgu a dysgu diogel, darllenwch y canllawiau ar dudalen chwech i wyth y ddogfen Trosolwg Athro. Mae modd lawrlwytho'r ddogfen yma ar: rspca.org.uk/ccresources. I gael gwybodaeth am sut i addasu Rhyddid ar Fuarth y Fferm i gynorthwyo disgyblion sydd â SEND, gweler y canllawiau ar dudalen wyth y ddogfen hon a thudalennau wyth a naw y Trosolwg i Athrawon.



Rhyddid iard y fferm

SYMBYLIAD

**10
MUNUD**

Animeiddiad am anghenion anifeiliaid fferm


Dechreuwch trwy ofyn i'r dosbarth: Ydy'r ffordd y mae anifail fferm yn cael ei drin yn bwysig? Beth sydd ei angen iddyn nhw fod yn hapus ac yn iach? Cofnodwch eu meddyliau yn y blwch ar sleid dau, neu argraffwch y sleid fel bod modd i'r disgyblion ysgrifennu arno. Gallwch chi ddefnyddio hyn fel asesiad gwaelodlin i gael syniad o ddealltwriaeth gychwynnol y disgyblion ac rydym yn eich annog i ailymweld â'r syniadau hyn ar ddiwedd y sesiwn.

Fel dosbarth, gwyliwch yr animeiddiad ar sleid tri am amodau byw ac anghenion anifeiliaid fferm a sut allwn ni sicrhau bod anifeiliaid fferm yn byw bywydau hapus ac iach. **Stopiwch wedi tua dau funud a 18 eiliad.** Bydd yna amser i wyllo gweddill yr animeiddiad yn ddiweddarach.



Wrth iddynt wyllo, gofynnwch i'r plant wneud nodyn o sut y gellir bodloni anghenion anifeiliaid fferm. Gadewch ychydig funudau wedyn i'r plant allu rhannu beth maent wedi sylwi. Esboniwch unrhyw eiriau nad ydynt yn siŵr ohonynt, a defnyddio'r wybodaeth yn y blwch isod os oes angen. Gallech greu 'banc geiriau', yn cofnodi geiriau a diffiniadau newydd i ddychwelyd atynt mewn sesiwn arall.

Os ydych chi'n gweithio gyda grwpiau gallu is neu iau, gallech greu'r banc geiriau eich hun a gofyn i'r plant wrando am y geiriau wrth wyllo. Siaradwch trwy ystyr y geiriau yn defnyddio'r animeiddiad fel cyd-destun i helpu.

**SLEID
2-3**

Rhyddid iard y fferm

BLWCH FFEITHIAU ANIFEILIAID FFERM

- Mae'r RSPCA yn parchu'r rhai sy'n dewis ffordd o fyw llysieuol neu fegan, ond yn cydnabod fod mwyafrif y cyhoedd yn bwyta cynnyrch anifeiliaid felly mae'n ceisio gwella ymwybyddiaeth o les anifeiliaid fferm a gwella bywydau cymaint o anifeiliaid fferm â phosibl
- Mae'r RSPCA wedi datblygu safonau ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid fferm, yn cwmpasu pob cam o fywyd anifail. RSPCA Assured yw cynllun sicrwydd fferm a labelu bwyd yr RSPCA sy'n asesu a chymeradwyo ffermydd, cludwyr a lladd-dai sy'n bodloni'r holl safonau lles perthnasol
- Mae bodloni anghenion lles anifail yn gofyn am, ymysg pethau eraill:
 - Digon o le
 - Goleuo digonol
 - Ardaloedd gorffwys cyfforddus
 - Cyfoethogiad amgylcheddol i'w hatal rhag diflasu ac i adael iddynt gyflawni eu hymddygiadau naturiol
 - Cysgod a lloches
- Mae anifeiliaid fferm yn 'ymdeimladol', sy'n golygu eu bod yn ymwybodol o'u teimladau ac emosiynau, felly i'w cadw yn hapus ac iach, rhaid bodloni eu hanghenion

Rhyddid iard y fferm

TRAFODAETH RAGARWEINIOL

**5-10
MUNUD**

Dangoswch sleid pedwar a chymharu'r delweddau o'r anifeiliaid fferm. Mae'r delweddau yn dangos amrywiaeth o wahanol amgylcheddau ble gellid cadw anifeiliaid, ond nid yw pob un yn bodloni anghenion lles yr anifeiliaid. Er enghraifft, ni ellir bodloni anghenion iâr mewn amgylchedd cawell, hyd yn oed os yw'n 'gawell a gyfoethogwyd'. **Symudwch eich llygoden dros bob delwedd i ddatgelu os yw'r amgylchedd yn bodloni anghenion yr anifeiliaid.**

Gan ddefnyddio beth mae'r dosbarth wedi ei ddysgu am anghenion anifeiliaid fferm hapus ac iach o'r animeiddiad, ystyriwch beth mae pob un o'r anifeiliaid yn y delweddau ar sleid pedwar angen i fyw bywyd cyfforddus. Anogwch y plant i ystyried sut brofiad fyddai hi i fod yn un o'r anifeiliaid fferm hynny.

Esboniwch fod gan wahanol anifeiliaid fferm wahanol anghenion. Er enghraifft, mae iâr angen ymdrochi mewn llwch sy'n ymddygiad naturiol nad yw'n bosibl mewn cawell, tra bod mochyn angen gwellt i ffrwyno trwyddo. Atgoffwch nhw o'r pump o anghenion anifeiliaid o'r sesiwn gynharach.

Dangoswch sleid pump ac esbonio beth mae'r RSPCA yn ei feddwl am anifeiliaid fferm.

CWESTIYNAU PROCIO

- Pam ydyn ni'n cadw anifeiliaid fferm? Beth maen nhw'n ei ddarparu i ni?
- Pa gyfrifoldebau sydd gan fodau dynol ar gyfer gwahanol fathau o anifeiliaid fferm?
- Wyddoch chi faint o'r pethau y byddwch yn bwyta sy'n dod o anifeiliaid?
- Allwch chi feddwl am rai pethau sy'n dod o anifeiliaid nad ydych chi'n eu bwyta? (e.e. esgidiau a bagiau wedi eu gwneud o ledr o wartheg a dillad o wllân defaid)

**SLEID
4-5**

Rhyddid iard y fferm

TASG

Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod yn aseswr RSPCA Assured, ar fin ymweld â fferm sy'n ceisio cyflawni statws RSPCA Assured trwy ofalu am yr anifeiliaid i safon uchel iawn.



Mewn grwpiau bychan, dylai'r plant ddewis anifail fferm (e.e. Buwch odro, buwch eidion, mochyn, iâr ddodwy, iâr cig) a meddwl am bum cwestiwn i holi' ffermwr neu restr wirio o bum peth y byddent yn chwilio amdano ar y fferm i wirio os yw anghenion yr anifeiliaid wedi eu bodloni. Gallwch gofnodi rhai o'u syniadau yn y blwch testun rhyngweithiol ar sleid chwech, neu argraffu copi o'r sleid yma ar gyfer pob grŵp.

Gallech fodelu'r gweithgaredd yma trwy ddewis anifail a phennu'r cwestiynau fel enghraifft, cyn rhannu'r dosbarth yn grwpiau.

CWESTIYNAU PROCIO

Os ydynt angen ysgogiad, meddyliwch yn ôl i'r ffilm a holi:

- Beth mae ieir a moch angen er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n diflasu ac i'w galluogi i gyflawni eu hymddygiad naturiol?
- A ellir bodloni anghenion mochyn os nad oes ganddo wellt i ffrwyno trwyddo?
- A ellir bodloni anghenion iâr os yw'n cael ei chadw mewn cawell bychan?

MWY O WYBODAETH

Am fwy o wybodaeth ar anghenion gwahanol anifeiliaid fferm a gweledigaeth yr RSPCA ar gyfer pob trin pob anifail fferm gyda thosturi a pharch, ewch i:

rspca.org.uk/adviceandwelfare/farm.

I gael gwybod mwy am RSPCA Assured, gwyliwch weddill yr animeiddiad gan ddefnyddio'r ddolen ar sleid saith. Gallwch hefyd ymweld â: **rspcaassured.org.uk/about-us.**



Rhyddid iard y fferm

TRAFODAETH DOSBARTH: ARCHWILIAD DEALLUSOL O SUT MAE BODAU DYNOL YN DEFNYDDIO ANIFEILIAID

**10-20
MUNUD**

Gofynnwch i'r plant drefnu eu hunain i gylch meddwl. Atgoffwch y plant i wrando yn barchus ar ei gilydd, heb ymyrryd ac i adeiladu ar y syniadau a chwestiynau.

CWESTIWN I GYCHWYN

- Sut ydyn ni'n gwybod fod gan anifeiliaid syniadau a theimladau?

CWESTIYNAU DILYNOL


- A fyddai'n well i anifail gael bywyd byrrach os oedd yn un hapus?
- A oes unrhyw ddiben arall i fywyd anifail fferm ar wahân i gynhyrchu bwyd i fodau dynol?
- A ddylid trin anifeiliaid fferm yn wahanol i anifeiliaid anwes am eu bod yn cynhyrchu bwyd i fodau dynol?

CRYNHOI'R SESIWN

**5
MUNUD**

Gwahoddwch y disgyblion i ailddarllen eu hymatebion cychwynnol a gofnodwyd ar sleid dau. Gofynnwch i bob disgybl feddwl am syniad neu gwestiwn o'r sesiwn yr hoffent ei archwilio ymhellach, neu oedd yn rhywbeth newydd iddynt ganfod heddiw. Anogwch ddisgyblion i rannu'r rhain â gweddill y dosbarth a'u cofnodi o dan eu syniadau cychwynnol o ddechrau'r wers. Trwy gadw'r PDF, gallwch ddychwelyd at y syniadau hyn mewn sesiwn arall.

Gallech wyllo'r adran ddiwethaf o'r animeiddiad i'ch atgoffa o rai o'r cysyniadau allweddol o'r wers, sydd ar sleid saith.

**SLEID
2****SLEID
7**


Rhyddid iard y fferm

ADNODDAU ESTYNIAD

Er mwyn defnyddio'r dysgu o'r sesiwn canfyddiad hon ymhellach, gallech archwilio ein gweithgareddau estyniad awgrymedig.

Llyfrau

© Doreen Cronin, Betsy Lewin 2000



Click, clack, moo, cows that type by Doreen Cronin

© Doreen Cronin, Betsy Lewin 2004



Vote for duck by Doreen Cronin

- Cymerwch rôl yr aseswr RSPCA Assured ymhellach, a herio'r plant i helpu ffermwyr i gynllunio'r amgylchedd perffaith ar gyfer anifail fferm penodol. Meddyliwch am sut y gellir bodloni'r pump o anghenion er mwyn sicrhau bod yr anifail yn hapus, iach a chyfforddus. Gallai grwpiau lunio map sy'n dangos nodweddion y fferm.
- Ymchwiliwch ac adrodd ar rôl yr RSPCA wrth sicrhau lles anifeiliaid fferm, gan ystyried RSPCA Assured. Mae'r RSPCA yn datblygu safonau lles ar gyfer anifeiliaid fferm ac RSPCA Assured yw cynllun sicrwydd fferm a labelu bwyd yr RSPCA. Mae RSPCA Assured yn asesu a chymeradwyo ffermydd, cludwyr a lladd-dai sy'n bodloni'r holl safonau lles perthnasol yr RSPCA.
- Denwch yr ysgol gyfan i gymryd rhan trwy baratoi **Gwasanaeth Anifeiliaid Fferm**

Adnoddau Ar-lein

- Am ragor o wybodaeth am anifeiliaid fferm ac RSPCA Assured, cymerwch olwg ar **rspca.org.uk/adviceandwelfare/farm** ac: **rspcaassured.org.uk/about-us**
- Os ydych chi eisiau ysbrydoli eich dosbarth gyda mwy o ffilmiau am les anifeiliaid, cymerwch olwg ar sianel YouTube yr RSPCA **youtube.com/rspcauk**

Rhyddid iard y fferm

ADNODDAU ERAILL I GYNORTHWYO DISGYBLION SYDD Â SEND

Mae'r gweithgareddau isod yn awgrymiadau i'ch helpu i addasu'r gweithgareddau Rhyddid iard y fferm i gynorthwyo ag anghenion eich disgyblion.

TASG (TUDALEN PUMP)

Er mwyn helpu disgyblion i ddeall anghenion lles ieir, dangoswch sleid wyth. Mae'r delweddau'n dangos dau amgylchedd gwahanol y mae ieir yn byw ynddynt, un lle nad yw anghenion lles yr ieir yn cael eu diwallu, ac un sy'n cyflawni canllawiau Sicrwydd RSPCA. Gofynnwch i'r disgyblion, sut maent yn wahanol? Pa bethau sydd gan ddelwedd Sicrwydd RSPCA nad oes gan y llall? Rhowch gopi o restr wirio Sicrwydd RSPCA ar sleid naw i ddisgyblion ac ailedrychwch ar sleid pedwar. Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r rhestr wirio i benderfynu a yw anghenion pob anifail yn cael eu diwallu. Gofynnwch pam yn eu barn hwy mae'r pethau ar y rhestr wirio yn bwysig

Rhyddid iard y fferm

BETH NESAF?

Os mai dyma eich gweithgaredd Canfyddiad cyntaf, dewiswch weithgaredd ysgogol arall i'w gwblhau gyda'ch disgyblion.

Os ydych chi eisoed wedi cwblhau o leiaf dau weithgaredd Canfyddiad, dewiswch weithgaredd Eiriolaeth a fydd yn darparu mynediad i'ch dosbarth at y gystadleuaeth Dosbarth Tosturiol. Rydym wedi cynnwys gweithgareddau Eiriolaeth awgrymedig isod sy'n gysylltiedig i'r gweithgaredd Canfyddiad hwn.

Gweithgareddau eiriolaeth

**OS OEDDECH CHI’N HOFFI’R GWEITHGAREDD
CANFYDDIAD ‘ANIFEILIAID FFERM’, BETH AM
ROI CYNNIG AR Y GWEITHGAREDDAU HYN**



FFERMWR GORAU PRYDAIN

Mewn grwpiau, mae’r plant yn dychmygu eu bod yn cynnal cystadleuaeth i ganfod ffermwr gorau’r wlad. Mae angen iddynt feddwl am y meini prawf ac ystyried sut fyddent yn barnu’r enillydd. Beth fyddai’r wobr?

- Crëwch bosteri i hyrwyddo’r gystadleuaeth ac ysgrifennu llythyr i anfon at ffermwyr yn esbonio beth sydd angen iddynt wneud ar eu fferm i gael gobaith o ennill
- Dychmygwch y gallant gyfweld â rhai o’r anifeiliaid sy’n byw ac yn gweithio ar y fferm fuddugol. Rhannwch y grwpiau yn ddau, gyda rhai plant yn ysgrifennu’r cwestiynau fyddent yn gofyn i’r gwahanol anifeiliaid, a’r gweddill yn ysgrifennu’r atebion. Anogwch nhw i feddwl am sut mae’r ffermwr yn bodloni anghenion y gwahanol anifeiliaid

SIOPA YSTYRLON

Mewn parau, mae’r plant yn cyflawni ymchwil i ddysgu’r holl ffyrdd mae bodau dynol yn defnyddio anifeiliaid, er enghraifft mêl, lledr, llaeth ac wyau. Cynhwyswch yr anifeiliaid y byddech yn eu canfod yn fwy cyffredin wedi eu ffermio mewn gwahanol wledydd, neu ar wahanol adegau o’r flwyddyn, er enghraifft tyrcïod.

- Crëwch bosteri sy’n dangos beth maent wedi dysgu am fodloni anghenion anifail fferm penodol, gyda rhai awgrymau da i helpu pobl i ddewis cynnyrch anifeiliaid a ddaw o anifeiliaid hapus, iach wrth siopa

